EUSMUNC6

Lleoli ac osgoi cyfarpar cyflenwi ar gyfer adeiladu rhwydweithiau cyfleustodau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â lleoli ac osgoi cyfarpar cyflenwi ar gyfer adeiladu rhwydweithiau cyfleustodau. Gallai’r cyfarpar cyflenwi fod uwchben neu o dan y ddaear, mewn strwythurau adeiledig, ac yn yr amgylchedd naturiol gan gynnwys sylfeini, gwreiddiau coed neu gyrsiau dŵr naturiol. Gallai fod yn berthnasol i weithrediadau adeiladu rhwydwaith ar gyfer un cyfleustod neu mewn amgylchedd sydd â mwy nag un cyfleustod.

Mae'n cynnwys defnyddio dulliau chwilio a chanfod priodol, cadw cofnodion wedi'u diweddaru, nodi ac osgoi risgiau o ddifrod i wasanaethau a pherygl i bobl, a dilyn arferion gwaith diogel. Mae cyfarpar cyflenwi yng nghyd-destun y safon alwedigaethol genedlaethol hon yn ymwneud â chyfarpar cyflenwi ar gyfer cyfleustodau ac asiantaethau eraill.

Mae'r Safon hon ar gyfer unrhyw un sy'n lleoli ac yn osgoi cyfarpar cyflenwi ar gyfer adeiladu rhwydwaith cyfleustodau mewn amgylchedd unigol neu aml-gyfleustod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dehongli cyfarwyddiadau gwaith a chynlluniau cyfleustodau i bennu hyd a lled y safle gwaith ac i alluogi marcio'r cyfarpar cyflenwi
2. cynnal asesiad risg safle-benodol, a'i adolygu'n unol â gweithdrefnau'r cwmni
3. defnyddio tystiolaeth arwyneb, cyfarpar lleoli electronig, tyllau prawf, a lluniadau i alluogi'r gwaith o farcio cyfarpar cyflenwi
4. marcio lleoliad a math y cyfarpar cyflenwi a'r is-strwythurau ar y safle gwaith yn unol â chyfarwyddiadau gwaith a chodau ymarfer statudol a rheoliadol
5. nodi risgiau o ddifrod i offer cyflenwi ac is-strwythurau yn unol â chodau ymarfer statudol a rheoliadol
6. cofnodi safleoedd a mathau o offer cyflenwi ac is-strwythurau mewn systemau gwybodaeth sefydliadol
7. cyfleu manylion lleoliad a math y cyfarpar cyflenwi a'r is-strwythurau i'r bobl briodol yn unol â chyfarwyddiadau a gofynion sefydliadol
8. holi'r bobl briodol am unrhyw amgylchiadau lle mae'r wybodaeth yn ymddangos yn anghywir
9. rhoi gwybod am wyriadau o ran safle offer a nodi strwythurau eraill yn unol â chyfarwyddiadau a gofynion sefydliadol
10. cynnal safle a chyflwr cyfarpar cyflenwi yn y safle gwaith yn unol â'u manyleb a'u codau ymarfer
11. sicrhau bod arferion gweithio yn y safle gwaith yn osgoi difrod i gyfarpar cyflenwi
12. sicrhau bod cyfarpar cyflenwi agored yn cael ei gefnogi, ei ddiogelu a'i amddiffyn yn unol â'u manyleb a gweithdrefnau cymeradwy
13. rhoi gwybod i'r bobl briodol am unrhyw ddifrod i offer cyflenwi a gwneud yr ardal yn ddiogel yn ddi-oed
14. datrys problemau o ddydd i ddydd yn eich maes cyfrifoldeb, gan gyfeirio'r rhai na allwch eu datrys at bobl briodol
15. cymryd rhagofalon i ddiogelu pobl ac offer rhag effeithiau difrod i gyfarpar cyflenwi yn unol â gweithdrefnau ac arferion cymeradwy
16. sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio â'r manylebau diweddaraf, rheoliadau statudol a chodau ymarfer y cwmni
17. dilyn yr holl weithdrefnau ar gyfer eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill bob amser

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion statudol a rheoliadol perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cloddiadau, ffyrdd a gwaith stryd, lleoliad cyfarpar cyflenwi lle mae hyn yn amlygu gwasanaethau eraill, deunyddiau peryglus, gweithio ar eich pen eich hun, damweiniau a chyfarpar diogelu personol
2. y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chynnal diogelwch a chyfanrwydd cyfarpar cyflenwi a'r camau i'w cymryd os bydd difrod
3. y rheoliadau sy'n rheoli'r math o berygl sy'n gysylltiedig â chyflenwadau gwahanol
4. gweithdrefnau ac arferion y diwydiant ar gyfer cadarnhau lleoliad a marcio cyfarpar cyflenwi
5. y prif briodweddau ffisegol a dulliau o adnabod cyfarpar cyflenwi ar gyfer cyfleustodau ac asiantaethau eraill gan gynnwys maint (diamedr), lliw, deunydd, ymwrthedd i effaith, lleoliadau a dyfnderoedd nodweddiadol
6. priodweddau ffisegol y cyfrwng sy’n cael ei gludo gan gyfarpar cyflenwi ar gyfer cyfleustodau ac asiantaethau eraill gan gynnwys nodweddion tanio, dwysedd o’i gymharu ag aer, trydaneiddio, adwaith i ddifrod dŵr
7. dulliau lleoli gweledol a nodi cyfarpar cyflenwi tanddaearol gan gynnwys marcwyr, arwyddion a nodweddion, cofnodion presennol
8. goblygiadau difrod i gyfarpar cyflenwi gan gynnwys perygl i'r hunan neu eraill, difrod i'r amgylchedd, cost atgyweirio ac oedi cyn gwneud y gwaith
9. rolau a chyfrifoldebau’r sefydliadau sy’n ymwneud â’r gwaith a sut mae cysylltu â nhw, gan gynnwys pa bobl neu sefydliadau i roi gwybod iddynt os bydd difrod i gyfarpar cyflenwi neu strwythurau tanddaearol eraill
10. dulliau marcio ar gyfer gwaith cloddio a chanlyniadau marcio anghywir gan gynnwys costau, colli amser, a gwastraff deunyddiau
11. pwysigrwydd darparu cynhaliaeth a gwarchodaeth ddigonol ar gyfer cyfarpar cyflenwi yn ystod gwaith cloddio a dulliau o ddarparu cymorth dros dro a pharhaol
12. gweithdrefnau diogel ar gyfer trin yr offer angenrheidiol
13. sut i ddefnyddio a dehongli canlyniadau darlleniadau offer canfod electronig ac effeithiau dylanwadau allanol ar ddarlleniadau
14. pryd y gellir defnyddio tyllau prawf i ddod o hyd i gyflenwadau tanddaearol
15. pwysigrwydd cyfeirio problemau sydd y tu hwnt i'ch cyfrifoldeb a phryd i wneud hynny

16. y gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar gynnydd, problemau a gwyriadau i raglenni gwaith a'u cofnodi

EUSMUNC6

Lleoli ac osgoi cyfarpar cyflenwi ar gyfer adeiladu rhwydweithiau cyfleustodau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | MUNC06 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau, Adeiladu Rhwydwaith Nwy |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustod |
| **Geiriau Allweddol** | lleoli, osgoi, cyflenwi, cyfarpar, cyfleustod, cyfleustodau, rhwydwaith, adeiladu, nwy, dŵr, gweithrediadau, LPG, hydrogen, aml-gyfleustod |